# Real Radio
# De Cymru a Gogledd a Chanolbarth Cymru

## Cais am newid Fformat

Ymgynghori

| | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 18 Mehefin 2010 |
| Dyddiad Cau ar gyfer Ymatebion: | 16 Gorffennaf 2010 |

# Cynnwys


| Adran | | Tudalen |
| --- | --- | --- |
| 1 | Crynodeb | 2 |
| 2 | Cefndir | 5 |

| Atodiad | | Tudalen |
| --- | --- | --- |
| 1 | Ymateb i'r ymgynghoriad hwn | 6 |
| 2 | Egwyddorion ymgynghori Ofcom | 8 |
| 3 | Dalen cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad | 9 |
| 4 | Cwestiwn yr ymgynghoriad | 11 |
| 5 | Cais GMG Radio am newid Fformat Real Radio (De Cymru) | 12 |
| 6 | Cais GMG Radio am newid Fformat Real Radio (Gogledd a Chanolbarth Cymru) | 16 |
| 7 | FFORMAT GORSAF RADIO MASNACHOL | 23 |
| 8 | Gorsafoedd radio masnachol a chymunedol sy'n gweithredu yng Nghymru | 24 |

## Adran 1

# Crynodeb

1.1 Mae Ofcom wedi derbyn dau gais oddi wrth GMG Radio i newid Fformat Real Radio (De Cymru) a Real Radio (Gogledd a Chanolbarth Cymru). Mae un orsaf ar hyn o bryd yn targedu cynulleidfa 25-54 oed yn Ne Cymru. Ar hyn o bryd mae'n rhaid iddi ddarlledu Cerddoriaeth Gyfoes i Oedolion a sicrhau bod sgwrsio, gwybodaeth ranbarthol a rhyngweithio â gwrandawyr yn elfennau pwysig, yn ogystal â darparu newyddion 24 awr. Byddai'r gynulleidfa ddemograffig darged yn aros yr un fath, a hefyd y rhyngweithio â gwrandawyr. Byddai'r ddarpariaeth newyddion yn aros yr un fath.

1.2 Daw'r cais hwn fel rhan o gais ychwanegol, sef cais am uno'r rhaglennu â'r rhaglennu ar gyfer gorsaf ranbarthol Real Radio GMG yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru, nad yw eto ar yr awyr. Y cynnig yw darparu un gwasanaeth radio ar draws Cymru.

1.3 Fel y dangosir isod, mae Natur y Gwasanaeth ar gyfer y ddwy orsaf radio yn gofyn am newid o ddarparu 'gwybodaeth ranbarthol' i ddarparu 'gwybodaeth am Gymru'. Oherwydd hyn, rydym yn trin hwn fel un ymarfer ymgynghori.

**<u>Natur bresennol y Gwasanaeth gan Real Radio De Cymru</u>**

| |
|---|
| **GORSAF SY'N RHOI GWASANAETH LLAWN O GERDDORIAETH GYFOES I OEDOLION YN NE CYMRU, WEDI'I HANELU'N BENNAF AT BOBL RHWNG 25 A 54 OED, AC SY'N CREDU BOD SGWRS, GWYBODAETH RANBARTHOL A RHYNGWEITHIO Â GWRANDAWYR YN BWYSIG, YN OGYSTAL Â DARPARU NEWYDDION 24 AWR.** |

**<u>Natur arfaethedig y Gwasanaeth gan Real Radio Rhanbarth Gogledd a Chanolbarth Cymru</u>**

| |
|---|
| **GORSAF SY'N RHOI GWASANAETH LLAWN O GERDDORIAETH GYFOES I OEDOLION YNG NGOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU, WEDI'I HANELU'N BENNAF AT BOBL RHWNG 25 A 54 OED, AC SY'N CREDU BOD SGWRS, GWYBODAETH RANBARTHOL A RHYNGWEITHIO Â GWRANDAWYR YN BWYSIG, YN OGYSTAL Â DARPARU NEWYDDION 24 AWR** |

**<u>Natur arfaethedig y Gwasanaeth gan Real Radio De Cymru</u>**

| |
|---|
| **GORSAF SY'N RHOI GWASANAETH LLAWN O GERDDORIAETH GYFOES I OEDOLION YN NE CYMRU, WEDI'I HANELU'N BENNAF AT BOBL RHWNG 25 A 54 OED, AC SY'N CREDU BOD SGWRS, GWYBODAETH AM GYMRU A RHYNGWEITHIO Â GWRANDAWYR YN BWYSIG, YN OGYSTAL Â DARPARU NEWYDDION 24 AWR.** |

**<u>Natur arfaethedig diwygiedig y Gwasanaeth gan Real Radio Rhanbarth Gogledd a Chanolbarth Cymru</u>**

| |
|---|
| **GORSAF SY'N RHOI GWASANAETH LLAWN O GERDDORIAETH GYFOES I OEDOLION YNG NGOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU, WEDI'I HANELU'N BENNAF AT BOBL RHWNG 25 A 54 OED, AC SY'N CREDU BOD SGWRS, GWYBODAETH AM** |

**GYMRU A RHYNGWEITHIO Â GWRANDAWYR YN BWYSIG, YN OGYSTAL Â DARPARU NEWYDDION 24 AWR**

1.4 Mae Ofcom wedi cyhoeddi canllawiau mewn cysylltiad â'r meini prawf a ystyrir pan fydd gorsafoedd yn gwneud cais am newid Fformat.

1.5 Rhaid i Ofcom ystyried ceisiadau Real Radio (Cymru) a Real Radio (Gogledd a Chanolbarth Cymru) i newid ei Fformat yn unol â'r meini prawf statudol a nodir yn y ddeddfwriaeth isod, ac mae cwestiwn yr ymgynghoriad yn Atodiad 4 yn adlewyrchu hyn.

> *Gall Ofcom gydsynio i newidiadau o'r fath dan amodau sydd wedi'u cynnwys yn y drwydded (n), yn unol ag Adrannau 106 (1A) o Ddeddf Darlledu 1990 os yw'n fodlon bod o leiaf un o'r meini prawf canlynol wedi'i fodloni:*
>
> *(a) Ni fydd y newid yn newid natur y gwasanaeth yn sylweddol*
>
> *(b) Ni fydd y newid yn cyfyngu ar yr amrywiaeth o raglenni sydd ar gael yn yr ardal drwy gyfrwng gwasanaethau radio annibynnol perthnasol*
>
> *(c) Bydd y newid yn ffafriol i gynnal neu i hyrwyddo cystadleuaeth deg ac effeithiol neu*
>
> *(d) Mae tystiolaeth bod galw sylweddol am y newid ymysg y bobl sy'n byw yn yr ardal yr effeithir arni, neu fod cefnogaeth sylweddol i'r newid hwnnw.*

1.6 Os bydd gorsaf am wneud newidiadau a fydd yn newid natur ei wasanaeth yn sylweddol, mae Ofcom yn ymgynghori â'r cyhoedd cyn gwneud penderfyniad. Yn yr achos hwn, gallai'r cais, pe baem yn ei ganiatáu, newid natur gwasanaeth yr orsaf yn sylweddol.

1.7 Yn yr achos hwn, gan y byddai geiriad Natur y Gwasanaeth yn newid, yn unol â newidiadau blaenorol i Fformat, mae Ofcom o'r farn fod y newid yn un sylweddol ac felly mae'n ymgynghori ar y newid arfaethedig.

1.8 Yn yr achos hwn hefyd, mae'r mater yn ymwneud â'r cais am newid o ddarparu gwybodaeth ranbarthol i ddarparu gwybodaeth am Gymru. Mae GMG hefyd yn gofyn am ddarparu bwletinau newyddion lleol bob awr o leiaf yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos ac ar gyfnodau brig ar y penwythnos yn gyfnewid am o leiaf 7 awr y dydd o raglenni a wneir yn lleol ac o leiaf 4 awr yn ystod y dydd ar y penwythnos.

1.9 Gan fod Ofcom yn credu nad yw'r maen prawf (a) uchod wedi'i fodloni, ni ellir ond rhoi sêl bendith i'r newidiadau os bodlonir un o'r meini prawf (b) i (d). Dan amgylchiadau o'r fath, rhaid i Ofcom gynnal ymgynghoriad cyhoeddus.

1.10 Yn benodol, wrth ystyried a fodlonwyd maen prawf (b) (*ni fydd y newid yn cyfyngu ar yr amrywiaeth o raglenni sydd ar gael yn yr ardal drwy gyfrwng gwasanaethau radio annibynnol perthnasol),* nid yw gwasanaethau DAB lleol na gwasanaethau'r BBC yn 'cyfrif' fel gwasanaethau radio annibynnol perthnasol. Y gwasanaethau radio annibynnol perthnasol yw'r gorsafoedd analog masnachol a chymunedol lleol hynny sy'n gweithredu yn y rhanbarth, ac a restrir yn Atodiad 7.

1.11 Felly, mae Ofcom yn ceisio sylwadau ar y ceisiadau, gan roi ystyriaeth benodol i Adran 106 (1A) **(b) (c) a/neu (d)** o Ddeddf Darlledu 1990, fel y nodir uchod.

1.12 Mae Atodiad 5 yn cynnwys y ddau gais am newid Fformat ac ynddo dadleuir y byddai'r allbwn yn parhau i fod yn ddigon tebyg ac felly bod maen prawf (b) yn cael ei fodloni.

## Adran 2

# Cefndir

1.1 Trwyddedwyd Real Radio (De Cymru) yn wreiddiol yn 2000 gan yr Awdurdod Radio fel gorsaf ranbarthol yn gwasanaethu gwrandawyr yn Ne Cymru.

1.2 Dyfarnwyd y drwydded ar gyfer Real Radio (Gogledd a Chanolbarth Cymru) i GMG gan Ofcom yn 2008. Nid yw wedi dechrau darlledu eto.

1.3 Wrth ei dyfarnu, nododd Pwyllgor Trwyddedu Radio Ofcom: mae'r orsaf wedi mabwysiadu canllaw Ofcom sef o leiaf 10 awr y dydd (yn ystod yr wythnos) o raglenni a gynhyrchir yn lleol a phedair awr y dydd ar y penwythnos. Y tu allan i'r oriau hyn a wneir yn lleol, bydd yn rhaid i'r rhan fwyaf o'r rhaglenni ar yr orsaf newydd ddod gan Real Radio De Cymru (a thrwy hynny, greu gwasanaeth Cymru gyfan yn ystod yr oriau hyn) ac ni ellir eu rhannu â gorsafoedd eraill GMG, er bod y Fformat yn caniatáu “rhai rhaglenni rhwydwaith perthnasol GMG.”

1.4 Mae'r Ddeddf Economi Ddigidol wedi gwneud newidiadau i'r ffordd y mae Ofcom yn rheoleiddio radio lleol ac o dan y darpariaethau newydd, caniateir i weithredydd radio rannu rhaglenni. Ar gyfer gwasanaethau yn y cenhedloedd, fel yn yr achos hwn – Cymru; rhaid i elfennau o'r gwasanaeth a rennir a ddarlledir gael eu cynhyrchu yn y wlad honno (Cymru).

1.5 Mae polisi lleolrwydd Ofcom i'w weld yn ein Datganiad ar reoleiddio lleolrwydd radio masnachol, 15 Ebrill 2010. Ynddo dywedasom: Oherwydd anghenion penodol y cenhedloedd, dylai gorsafoedd rhanbarthol yn yr Alban a Chymru orfod cadw'u ffocws penodol ar y wlad am hyn a hyn o oriau'r diwrnod yn unol â'r canllawiau lleolrwydd ar gyfer gorsafoedd lleol. Yng Nghymru, caiff y gorsafoedd rhanbarthol ar gyfer Gogledd a Chanolbarth Cymru ac ar gyfer De Cymru wneud cais i roi'r gorau i ddarparu rhaglenni lleol ar wahân ar gyfer pob rhanbarth, ar yr amod eu bod yn ymrwymo i ddarparu fersiwn Cymru gyfan o'r gwasanaeth ar amlblecsau DAB lleol neu ranbarthol ymhob rhan o Gymru lle maent yn bodoli.

1.6 Mae GMG yn cynnig uno gweithrediadau De Cymru a Gogledd a Chanolbarth Cymru er mwyn darparu Real Radio Wales, gwasanaeth ar gyfer Cymru gyfan. Mae Real Radio yn bwriadu newid y gofyniad i ddarparu gwybodaeth ranbarthol a'i newid i ddarparu gwybodaeth am Gymru.

1.7 Mae GMG Radio – Real Radio yn ymrwymo i ddarparu bwletinau newyddion lleol bob awr o leiaf yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos ac ar gyfnodau brig ar y penwythnos yn gyfnewid am o leiaf 7 awr y dydd o raglenni a wneir yn lleol, yn hytrach na 10, ac o leiaf 4 awr yn ystod y dydd ar benwythnosau. Mae'r Ddeddf Economi Ddigidol yn caniatáu i Ofcom dderbyn y cynnig hwn.

1.8 Haera Real Radio mai “pwrpas y cynnig yw ehangu cwmpas daearyddol y gwasanaeth i gynnwys y rhan fwyaf o Gymru".

1.9 Awgryma GMG Radio fod y gofyniad i ymrwymo i ddarparu fersiwn Cymru gyfan o'r gwasanaeth ar amlblecsau DAB lleol a rhanbarthol ymhob rhan o Gymru lle maent yn bodoli, wedi'i fodloni. Maent yn darlledu ar hyn o bryd drwy MXR i gynulleidfaoedd yn Aber Hafren a De Cymru. Mae GMG hefyd wedi cyflwyno Penawdau Cytundeb ffurfiol y cytunwyd arnynt gyda MuxCo ar gyfer cludiant DAB digidol ar amlblecs Swydd Gaer a Gogledd Ddwyrain Cymru.

# Atodiad 1

# Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut i ymateb

A1.1 Mae Ofcom yn gofyn am farn a sylwadau ysgrifenedig am y materion a godir yn y ddogfen hon **erbyn 5pm ar 16 Gorffennaf 2010**.

A1.2 Mae'n well o lawer gan Ofcom gael ymatebion drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein ar y we yn http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/(station name)/howtorespond/form, gan fod hyn yn ein helpu i brosesu'r ymatebion yn gyflym ac yn effeithlon. Byddem yn ddiolchgar hefyd pe gallech ein helpu drwy gwblhau dalen cyflwyno ymateb (gweler Atodiad 3), i ddangos a oes unrhyw faterion i'w hystyried ai peidio o ran cyfrinachedd. Mae'r ddalen cyflwyno ymateb hon wedi'i chynnwys yn holiadur y ffurflen ar-lein ar y we.

A1.3 Yng nghyswllt ymatebion mwy i'r ymgynghoriad – yn enwedig rhai sy'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata arall ategol – anfonwch hwynt drwy'r e-bost at: paul.boon@ofcom.org.uk, gan atodi eich ymateb mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â dalen cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad.

A1.4 Gallwch hefyd anfon eich ymatebion drwy'r post neu drwy ffacs i'r cyfeiriad isod:

Real Radio (Wales) consultation
F.A.O. Paul Boon
Senior Radio Executive
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
London SE1 9HA

Fax: 020 7981 3850

A1.5 Sylwch nad oes arnom angen copi caled yn ychwanegol at fersiwn electronig. Bydd Ofcom yn cydnabod ymatebion ar ôl eu cael os cânt eu cyflwyno drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein ar y we ond nid fel arall.

A1.6 Byddai o gymorth pe bai eich ymateb yn cynnwys ateb uniongyrchol i'r cwestiwn a ofynnir yn y ddogfen hon, sydd wedi'i nodi yn Atodiad 4. Byddai hefyd o gymorth pe gallech egluro'r rhesymau dros eich barn a sut y byddai'r cynigion yn effeithio arnoch chi.

## Rhagor o wybodaeth

A1.7 Os hoffech drafod y materion a'r cwestiynau a godir yn yr ymgynghoriad hwn, neu os oes arnoch angen cyngor ynghylch y dull priodol o ymateb, cysylltwch â Jon Heasman ar 020 7783 4509.

## Cyfrinachedd

A1.8 Rydym yn credu ei bod yn bwysig bod pawb sy'n ymddiddori mewn mater sydd dan sylw'n cael gweld y farn a fynegwyd gan ymatebwyr i ymgyngoriadau. Felly, byddwn fel arfer yn cyhoeddi'r holl ymatebion ar ein gwefan, www.ofcom.org.uk, wrth eu cael, os oes modd. Os ydych yn credu y dylid cadw'ch ymateb yn gyfrinachol, byddwch cystal â nodi pa ran o'ch ymateb y dylid ei chadw'n gyfrinachol, neu a ddylid cadw'r cwbl ohono'n gyfrinachol, a nodi pam. Byddwch cystal â rhoi rhannau o'r fath mewn atodiad ar wahân hefyd.

A1.9 Os bydd rhywun yn gofyn inni gadw rhan neu'r cwbl o ymateb yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifrif ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen inni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A1.10 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'i rhoi dan drwydded i Ofcom i'w defnyddio. Mae eglurhad pellach o safbwynt Ofcom ar hawliau eiddo deallusol ar ei wefan yn http://www.ofcom.org.uk/about/accoun/disclaimer/

## Y camau nesaf

A1.11 Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad.

A1.12 Sylwch y gallwch gofrestru i gael diweddariadau am ddim drwy'r post yn tynnu'ch sylw at ddogfennau perthnasol a gyhoeddir gan Ofcom. Mae rhagor o fanylion ar gael yn: http://www.ofcom.org.uk/static/subscribe/select_list.htm

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A1.13 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl i ymateb i ymgynghoriadau. Mae rhagor o wybodaeth yn ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 2.

A1.14 Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynghylch y modd y mae Ofcom yn cynnal ei ymgyngoriadau, ffoniwch ein desg gymorth ymgynghori ar 020 7981 3003 neu anfonwch neges drwy'r e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk . Byddem yn arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut y gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth geisio barn y grwpiau neu'r unigolion hynny, fel busnesau bach neu fathau penodol o ddefnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A1.15 Os hoffech drafod y materion hyn neu brosesau ymgynghori Ofcom yn fwy cyffredinol gallwch gysylltu hefyd â Vicki Nash, Cyfarwyddwr yr Alban, sy'n hyrwyddwr ymgynghori i Ofcom:

Vicki Nash
Ofcom
Sutherland House
149 St. Vincent Street
Glasgow G2 5NW
Ffôn: 0141 229 7401
Ffacs: 0141 229 7433

E-bost vicki.nash@ofcom.org.uk

## Atodiad 2

# Egwyddorion ymgynghori Ofcom

A1.1 Mae Ofcom wedi cyhoeddi'r saith egwyddor canlynol y bydd yn eu dilyn ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

## Cyn yr ymgynghoriad

A1.2 Os oes modd, byddwn yn cynnal trafodaethau anffurfiol â phobl a chyrff cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym yn meddwl yn y cyfeiriad iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

## Yn ystod yr ymgynghoriad

A1.3 Byddwn yn glir ynghylch pwy yr ydym yn ymgynghori â hwy, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A1.4 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr a syml ag y bo modd gyda chrynodeb o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd ag y bo modd i roi ymateb ysgrifenedig i ni. Os yw'r ymgynghoriad yn gymhleth, efallai y byddwn yn darparu arweiniad byr mewn iaith syml i gyrff llai neu i unigolion na fyddent yn gallu rhoi o'u hamser i rannu eu barn fel arall.

A1.5 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at 10 wythnos yn dibynnu ar effaith bosibl ein cynigion.

A1.6 Bydd rhywun o fewn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn estyn allan at y nifer mwyaf o bobl a chyrff sydd â diddordeb yng nghanlyniad ein penderfyniadau. 'Hyrwyddwr Ymgynghori' Ofcom hefyd fydd y prif unigolyn y dylid cysylltu â hi i roi barn am y modd yr ydym yn cynnal ein hymgyngoriadau.

A1.7 Os na fyddwn yn gallu dilyn un o'r egwyddorion hyn, byddwn yn egluro pam.

## Ar ôl yr ymgynghoriad

A1.8 Rydym yn credu ei bod yn bwysig bod pawb sy'n ymddiddori mewn mater sydd dan sylw'n cael gweld barn pobl eraill yn ystod yr ymgynghoriad. Fel arfer, byddem yn cyhoeddi'r holl ymatebion a gawsom ar ein gwefan. Yn ein datganiad, byddwn yn rhoi rhesymau dros ein penderfyniadau ac yn disgrifio sut yr oedd barn y rhai a fu'n gysylltiedig wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hynny.

**Atodiad 3**

# Dalen cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad

A1.1 Er mwyn gweithredu'n dryloyw a dilyn arferion rheoleiddio da, byddwn yn cyhoeddi'r holl ymatebion i ymgyngoriadau'n llawn ar ein gwefan, www.ofcom.org.uk.

A1.2 Rydym wedi cynhyrchu dalen ar gyfer cyflwyno ymatebion (gweler isod) a byddem yn ddiolchgar iawn pe gallech anfon un ohonynt gyda'ch ymateb (mae hon wedi'i chynnwys yn y ffurflen ar-lein ar y we os byddwch yn ymateb fel hyn). Bydd hyn yn ein helpu i brosesu ymatebion yn gyflymach, ac i gadw cyfrinachedd os yw hynny'n briodol.

A1.3 Gellir gwella ansawdd yr ymgynghori drwy gyhoeddi ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Yn benodol, gall hyn fod o gymorth i'r unigolion a'r cyrff hynny sy'n brin eu hadnoddau neu heb fod yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly byddai Ofcom yn annog ymatebwyr i gwblhau eu dalen gyflwyno mewn modd sy'n caniatáu i Ofcom gyhoeddi eu hymatebion wrth iddynt ddod i law, yn hytrach nag aros nes bod y cyfnod ymgynghori wedi dod i ben.

A1.4 Mae'n well o lawer gennym gael ymatebion drwy'r ffurflen ar-lein sydd ar y we sy'n cynnwys y ddalen gyflwyno. Os ydych yn ymateb drwy'r e-bost, y post neu ffacs, gallwch lwytho copi electronig o'r ddalen hon i lawr mewn fformat Word neu RTF oddi ar yr adran 'Ymgyngoriadau' ar ein gwefan yn www.ofcom.org.uk/consult/.

A1.5 Byddwch cystal â rhoi unrhyw rannau o'ch ymateb y credwch y dylid eu cadw'n gyfrinachol mewn atodiad ar wahân i'ch ymateb a rhowch eich rhesymau dros nodi pam na ddylid cyhoeddi'r rhan hon o'ch ymateb. Gall hyn gynnwys gwybodaeth fel eich cefndir a'ch profiad personol. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, byddwch cystal â'u rhoi ar eich dalen gyflwyno'n unig, fel na fydd yn rhaid inni olygu'ch ymateb.

## Dalen cyflwyno ymateb i ymgynghoriad gan Ofcom

### MANYLION SYLFAENOL

Teitl yr ymgynghoriad: Ymgynghoriad ar Real Radio (Cymru)

At (cyswllt yn Ofcom): Paul Boon

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu gorff/cyrff):

Cyfeiriad (os na chafwyd ef drwy'r e-bost):

### CYFRINACHEDD

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb yr ydych yn ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau am hynny

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dim byd | ☐ | Enw/manylion cyswllt/teitl swydd | ☐ |
| Yr ymateb cyfan | ☐ | Corff | ☐ |
| Rhan o'r ymateb | ☐ | Os nad oes atodiad ar wahân, pa rannau? | ☐ |

Os nad ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu enw'ch corff gael eu cyhoeddi, a gaiff Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb er hynny (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol nad yw'n datgelu gwybodaeth benodol neu'n rhoi modd i'ch adnabod)?

### DATGANIAD

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth a gyflwynir gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i ymgynghoriad y caiff Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth roi'r ymateb hwn, rwy'n deall y gallai fod angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon ymateb drwy'r e-bost, caiff Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys neges e-bost ac atodiadau.

Mae Ofcom yn ceisio cyhoeddi ymatebion wrth iddynt ddod i law.
Os nad yw eich ymateb yn gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych inni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes i'r ymgynghoriad ddod i ben, ticiwch yma. ☐

Enw Llofnod (os darperir copi papur)

## Atodiad 4

# Cwestiwn yr ymgynghoriad

### Un Cwestiwn

A1.1

*C 1. A ddylid caniatáu i Real Radio (De Cymru) a Real Radio (Gogledd a Chanolbarth Cymru) wneud y newidiadau y mae'n eu cynnig i'r gorsafoedd, yn arbennig yng nghyswllt y meini prawf statudol a nodwyd yn y crynodeb? (Adran 106 (1A) (b) a (d) o Ddeddf Darlledu 1990 yn ymwneud â newid Fformat).*

## Atodiad 5

# Cais GMG Radio i newid Fformat Real Radio (De Cymru)

**Ffurflen Gais am Newid Fformat OfW 332**

## Trwydded Radio Masnachol Analog: Ffurflen Gais am Newid Fformat

| | |
|---|---|
| **Enw'r Orsaf:** | Real Radio De Cymru |
| **Yr ardal drwyddedig a rhif y drwydded:** | Rhanbarth De Cymru<br>AL261-1 |
| **Trwyddedai:** | GMG Radio Holdings Limited |
| **Enw cyswllt:** | Jeff Stephenson |

**Manylion y Newid(iadau) a geisir i'r Fformat**

| | |
|---|---|
| **Natur y Gwasanaeth**<br><br>***Llenwch yr adran hon os ydych yn gwneud cais i newid y rhan hon o'ch Fformat*** | **Natur y Gwasanaeth ar hyn o bryd:** |
| | **GORSAF SY'N RHOI GWASANAETH LLAWN O GERDDORIAETH GYFOES I OEDOLION YN NE CYMRU, WEDI'I HANELU'N BENNAF AT BOBL RHWNG 25 A 54 OED, AC SY'N CREDU BOD SGWRS, GWYBODAETH RANBARTHOL A RHYNGWEITHIO Â GWRANDAWYR YN BWYSIG, YN OGYSTAL Â DARPARU NEWYDDION 24 AWR.** |
| | |
| | **Natur newydd y Gwasanaeth sy'n cael ei gynnig:** |
| | **GORSAF SY'N RHOI GWASANAETH LLAWN O GERDDORIAETH GYFOES I OEDOLION YN NE CYMRU, WEDI'I HANELU'N BENNAF AT BOBL RHWNG 25 A 54 OED, AC SY'N CREDU BOD SGWRS, GWYBODAETH AM GYMRU A RHYNGWEITHIO Â GWRANDAWYR YN BWYSIG, YN OGYSTAL Â DARPARU NEWYDDION 24 AWR.** |

<table>
<tr><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Rhannu rhaglenni a/neu drefniadau cydleoli<br>Llenwch yr adran hon os ydych yn gwneud cais i newid y rhan hon o’ch Fformat</td><td>Y trefniadau cyfredol:<br>Does dim trefniadau ar hyn o bryd ar gydleoli ac mae’r rhaglenni rhwydwaith yn cydymffurfio â’r gweithdrefnau safonol a dim ond yn cael eu darlledu y tu allan i ofynion y drwydded sy’n ymwneud â’r oriau ar gyfer rhaglenni a gynhyrchir yn lleol fel y nodir yn yr adran dyletswyddau cyfredol isod.</td></tr>
<tr><td></td><td>Trefniadau newydd arfaethedig:<br><br>Cydleoli<br>Bydd Real Radio De Cymru a Real Radio Gogledd a Chanolbarth Cymru yn cael eu cydleoli yn stiwdios presennol Tŷ Nant ger Caerdydd neu unrhyw leoliad arall yng Nghymru.<br><br>Rhannu rhaglenni<br>Bydd y rhan fwyaf o’r rhaglenni a rennir ar gyfer y gwasanaeth y tu allan i’r oriau a gynhyrchir yn lleol o Gymru fel y nodir yn yr adolygiad isod yn rhaglenni rhwydwaith priodol a pherthnasol gan Real Radio neu GMG Radio. Efallai hefyd y bydd rhywfaint o hollti rhaglenni’n digwydd gyda gwasanaeth Real Radio yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru pan fo cyfiawnhad dros wneud hynny.</td></tr>
<tr><td>Oriau a wneir yn lleol a/neu fwletinau newyddion lleol<br><br>Llenwch yr adran hon os ydych yn gwneud cais i newid y rhan hon o’ch Fformat</td><td>Dyletswyddau cyfredol:<br><table><tr><td>Oriau a wneir yn lleol</td><td>O leiaf 10 awr y diwrnod yn ystc amser brecwast).<br>O leiaf 4 awr yn ystod y dydd ar</td></tr><tr><td>Bwletinau newyddion lleol</td><td>Bob awr o leiaf yn yr oriau brig allan i’r oriau brig, dylid cynnwy rhyngwladol.</td></tr></table></td></tr>
<tr><td></td><td>Dyletswyddau newydd arfaethedig:<br><table><tr><td>Oriau a wneir yn lleol</td><td>O leiaf 7 awr y diwrnod yn ystod brecwast).<br>O leiaf 4 awr yn ystod y dydd ar</td></tr><tr><td>Bwletinau newyddion lleol</td><td>Bob awr o leiaf yn ystod y dydd benwythnosau. Y tu allan i’r ori cenhedloedd a newyddion rhyn</td></tr></table></td></tr>
</table>

Gall deilydd trwydded radio masnachol lleol analog wneud cais i Ofcom am gael newid Fformat yr orsaf. Dylid gwneud unrhyw gais gan ddilyn y drefn sydd wedi’i dangos ar y

ffurflen hon, a dylai fod yn unol â'r gweithdrefnau y mae Ofcom wedi'u cyhoeddi ar gyfer newidiadau mewn Fformat (ar gael ar ein gwefan yn www.ofcom.org.uk/radio/ifi/rbl/formats/formats/fc/changeregs/).

O dan adran 106(1A) o Ddeddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd), ni fydd Ofcom ond yn caniatáu newid mewn Fformat os yw'n fodlon bod *o leiaf* un o'r pum maen prawf statudol canlynol wedi'i fodloni:

*(a) na fydd y newid yn newid natur y gwasanaeth yn sylweddol;*

*(b) na fydd y newid yn cyfyngu ar yr amrywiaeth o raglenni sydd ar gael drwy gyfrwng gwasanaethau radio annibynnol perthnasol i bobl sy'n byw yn yr ardal neu'r gymdogaeth y mae'r gwasanaeth wedi'i drwyddedu i ddarparu ar eu cyfer;*

*(c) y bydd y newid yn ffafriol i gynnal neu i hyrwyddo cystadleuaeth deg ac effeithiol;*

*(d) bod tystiolaeth bod galw sylweddol ymysg y bobl sy'n byw yn yr ardal neu'r gymdogaeth honno am y newid a fyddai'n deillio o'r fformat newydd, neu fod cefnogaeth sylweddol i'r newid hwnnw; neu*

*(e) y byddai (i) y newid yn arwain at roi'r gorau i wneud y rhaglenni sydd wedi'u cynnwys yn y gwasanaeth trwyddedig mewn adeilad yn yr ardal neu'r gymdogaeth y darperir y gwasanaeth ar eu cyfer, ond (ii) bod y rhaglenni hynny'n parhau i gael eu gwneud yn gyfan gwbl neu'n rhannol mewn adeilad yn yr ardal gymeradwy (fel y'i diffinnir yn adran 314 o Ddeddf Cyfathrebu 2003 (cynnwys lleol a natur gwasanaethau)).*

Dim ond un o'r pum maen prawf hyn y mae angen ei fodloni er mwyn i Ofcom ganiatáu'r newid arfaethedig. Fodd bynnag, hyd yn oed os yw Ofcom o'r farn bod y newid arfaethedig yn bodloni un neu fwy o'r meini prawf statudol, efallai y bydd rhesymau (yn dibynnu ar amgylchiadau penodol yr achos) pam na fydd Ofcom yn caniatáu'r newid arfaethedig. Mae'r meini prawf ychwanegol y bydd Ofcom yn eu hystyried wrth arfer yr hawl hwn i'w cael yn: www.ofcom.org.uk/radio/ifi/rbl/formats/formats/fc/changeregs/)

Dylai ymgeiswyr nodi bod adran 106ZA o'r un Ddeddf (fel y'i diwygiwyd) yn mynnu bod rhaid ymgynghori ynghylch newid arfaethedig *nad yw'n* bodloni'r cyntaf neu'r olaf o'r meini prawf hyn (h.y. newid y mae Ofcom o'r farn y *byddai* neu y *gallai* newid natur y gwasanaeth yn sylweddol, neu nad yw'n ymwneud â tharddiad rhaglenni a wneir yn lleol), os ydyw i'w ystyried ymhellach dan unrhyw un o'r tri maen prawf arall. [#].

Os digwydd i Ofcom gael cais am newid Fformat a'i fod yn credu *nad yw* maen prawf (a) neu (e) wedi'i fodloni, bydd yn gofyn am gadarnhad gan yr ymgeisydd ynghylch a yw'n dymuno parhau â'r cais (ac, os ydyw, a yw'n dymuno newid ei gyflwyniad neu roi un yn ei le o gofio bod angen ei gyhoeddi).

**A fyddech yn nodi'r maen prawf neu'r meini prawf statudol a nodir yn adran 106(1A) o Ddeddf Darlledu 1990 sydd, yn eich barn chi, wedi'i fodloni neu wedi'u bodloni yng nghyswllt y cais hwn am newid Fformat, a'r rhesymau dros hyn:**

**Perthnasedd i adran 106(a)…**

Ni fydd natur gyffredinol y gwasanaeth ac arddull y rhaglenni a fydd yn cael eu darparu i wrandawyr yn ne Cymru yn newid yn sylweddol gan mai bwriad y cynnig yw ehangu cwmpas daearyddol y gwasanaeth i gynnwys y cyfan neu'r rhan fwyaf o Gymru. Mae oriau a wneir yn

lleol (yng Nghymru) am saith awr yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos gan gynnwys amser brecwast a phedair awr yn ystod yr oriau brig ar y penwythnos ynghyd â bwletinau newyddion lleol ychwanegol yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos yn cydymffurfio â'r gofynion yn natganiad lleolrwydd Ofcom.

Nid yw ehangu'r cwmpas daearyddol a rhoi golwg mwy cenedlaethol i'r gwasanaeth o ran gwybodaeth a newyddion am Gymru ar analog a digidol yn cael ei weld gan GMG Radio ac ni ddylai gael ei ystyried gan Ofcom na'r mwyafrif o wrandawyr i'r gwasanaeth newydd hyn yn newid sylweddol nac ychwaith yn newid yn sylweddol natur gyffredinol y gwasanaeth radio a ragwelir ar gyfer de Cymru.

Bydd cyfuno dau wasanaeth radio masnachol sy'n ymgorffori gorsaf Real Radio De Cymru sydd eisoes yn weithredol ynghyd â'i chwaer orsaf newydd yn y Gogledd a'r Canolbarth ar drwyddedau darlledu ar wahân, yn fodd i rhannol greu gorsaf radio fasnachol genedlaethol ar gyfer y rhan fwyaf o Gymru ond gyda'r gallu o hyd i addasu i unrhyw ddigwyddiadau a chan hollti rhaglenni rhwng y ddwy drwydded pan fo cyfiawnhad dros wneud hynny.

**Perthnasedd i adran 106 (b), (c) a (d)…**

Bydd Real Radio yn y de ac yn y gogledd a'r canolbarth yn ymrwymo i gynnig gwasanaeth radio cenedlaethol i Gymru ar yr amlblecsau DAB sydd ar gael ar draws y wlad erbyn diwedd eleni a hefyd ar wahân ar FM drwy gyfrwng y ddwy drwydded analog yn gynnar yn 2011. Ni fydd ystod y rhaglenni'n cael ei leihau a bydd gwrandawyr ymhob un o'r ardaloedd darlledu rhanbarthol yn clywed yr un rhaglenni o Gymru ac i Gymru gyda rhagor o newyddion, newyddion teithio, bwletinau tywydd, chwaraeon a rhaglenni nodwedd eraill er mwyn rhoi blas lleol a chenedlaethol i'r cynnwys gan adlewyrchu cymeriad y gwasanaeth sydd wedi'i newid ryw ychydig i wrandawyr.

Bydd trwyddedau analog ar wahân ynghyd â rhannu rhaglenni yn galluogi'r orsaf hefyd i hollti rhaglenni ar gyfer de a gorllewin Cymru a gogledd a chanolbarth Cymru ar analog a DAB pan fo cyfiawnhad dros wneud hynny.

Ni fydd y newid arfaethedig i gynnwys yr oriau a wneir yn lleol gydag ymrwymiadau ychwanegol o ran bwletinau newyddion lleol ar gyfer de Cymru yn newid fformat na chymeriad cyffredinol y gwasanaeth ac ni ragwelir y bydd y newid yn lleihau'r galw nac yn effeithio'n negyddol ar y gwrandawyr presennol.

**A fyddech yn darparu unrhyw wybodaeth a/neu dystiolaeth ychwanegol o blaid y newid(iadau) arfaethedig isod os gwelwch yn dda. Yn benodol, efallai y bydd yr ymgeisydd am amlinellu sut, yn eu barn hwy, y mae'r newid arfaethedig yn cyd-fynd â pholisi cyhoeddedig Ofcom ar wneud cais am newid Fformat (www.ofcom.org.uk/radio/ifi/rbl/formats/fc/changeregs),**
**A hefyd arweiniad lleolrwydd Ofcom, sy'n cynnwys ein polisi ar gydleoli a rhannu rhaglenni (**www.ofcom.org.uk/radio/ifi/rbl/car/localness**)**

Ar analog a digidol, mae'n amlwg y bydd Real Radio yn dal yn wasanaeth radio wedi'i leoli yng Nghymru ac yn canolbwyntio ar Gymru gydag ymrwymiad eang i ddarparu newyddion a gwybodaeth am faterion y dydd i wrandawyr yng Nghymru a fydd yn parhau i sicrhau ei fod yn wahanol i unrhyw wasanaeth radio masnachol arall yn y rhanbarth.

Mae cydleoli a rhannu rhaglenni gyda gogledd a chanolbarth Cymru’n darparu’r echelin a fydd yn fodd i gael modiwl busnes cynaliadwy a chwbl gydgysylltiedig gydag awydd a rhyddid digonol i ddarparu gwasanaeth radio llawn yng Nghymru fel y disgwylir ganddynt ac a ddarparwyd yn flaenorol ac yn barhaus gan Real Radio yn Ne Cymru ers ei lansio o Gaerdydd bron i ddeng mlynedd yn ôl.

Mae'r Mesur Economi Ddigidol newydd yn golygu bellach fod y cyfle i gael radio cenedlaethol ar gyfer y rhan fwyaf y Gymru yn bosibilrwydd gwirioneddol ar gyfer gwrandawyr ac yn ddichonadwy i Real Radio fel busnes yn y ddwy ardal drwyddedig.

Bydd y gwasanaeth(au) yn darlledu gyda rhaglenni’n cael eu rhannu ar draws Cymru ar analog a DAB. Gan ragweld cymeradwyaeth Ofcom i'r cais hwn, mae GMG Radio wedi ymgynghori â MuxCo a bydd cynnig ar ffurf cytundeb Penawdau Telerau ffurfiol ar gyfer cludiant digidol i amlblecs Canolbarth Cymru a Swydd Gaer ar gyfer darparu’r gwasanaeth yn cael ei weithredu pan geir cymeradwyaeth. Rhagwelir hefyd y bydd y gwasanaeth newydd yn parhau fel y mae ar sail y DU gyfan ar lwyfan Sky Digital.

Rydym felly’n gofyn am gymeradwyaeth ffurfiol gan Ofcom er mwyn bwrw ymlaen â'n cynllun.

*Nodiadau*

# Gall Ofcom roi sêl bendith i newid dan unrhyw feini prawf o (b) i (d) heb ymgynghori, neu yn dilyn ymgynghoriad sy'n para llai na 28 diwrnod, os yw Ofcom o'r farn y byddai cynnal ymgynghoriad o gwbl, neu am 28 diwrnod neu fwy, yn arwain at oedi a fyddai’n debygol o niweidio buddiannau deilydd y drwydded. Gall Ofcom hefyd dynnu unrhyw wybodaeth gyfrinachol a gyflwynir gan y deilydd trwydded at ddibenion ymgynghori.

# Cais GMG Radio i newid Fformat Real Radio (Gogledd a Chanolbarth Cymru)

Ofcom

**Ffurflen Gais am Newid Fformat OfW 332**

# Trwydded Radio Masnachol Analog: Ffurflen Gais am Newid Fformat

| | |
|---|---|
| **Enw'r Orsaf:** | Real Radio |
| **Yr ardal drwyddedig a rhif y drwydded:** | Rhanbarth Gogledd a Chanolbarth Cymru<br>Rhif *AL* heb ei roi |
| **Trwyddedai:** | GMG Radio Holdings Limited |
| **Enw cyswllt:** | Jeff Stephenson |

## Manylion y Newid(iadau) a geisir i'r Fformat

| | |
|---|---|
| **Natur y Gwasanaeth**<br><br>***Llenwch yr adran hon os ydych yn gwneud cais i newid y rhan hon o'ch Fformat*** | **Natur y Gwasanaeth ar hyn o bryd:**<br><br>**GORSAF SY'N RHOI GWASANAETH LLAWN O GERDDORIAETH GYFOES I OEDOLION YNG NGOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU, WEDI'I HANELU'N BENNAF AT BOBL RHWNG 25 A 54 OED, AC SY'N CREDU BOD SGWRS, GWYBODAETH RANBARTHOL A RHYNGWEITHIO Â GWRANDAWYR YN BWYSIG, YN OGYSTAL Â DARPARU NEWYDDION 24 AWR**<br><br>**Natur newydd y Gwasanaeth sy'n cael ei gynnig:**<br><br>**GORSAF SY'N RHOI GWASANAETH LLAWN O GERDDORIAETH GYFOES I OEDOLION YNG NGOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU, WEDI'I HANELU'N BENNAF AT BOBL RHWNG 25 A 54 OED, AC SY'N CREDU BOD SGWRS, GWYBODAETH AM GYMRU A RHYNGWEITHIO Â GWRANDAWYR YN BWYSIG, YN OGYSTAL Â DARPARU NEWYDDION 24 AWR** |
| **Rhannu rhaglenni a/neu drefniadau cydleoli**<br>***Llenwch yr adran hon os ydych yn gwneud cais i newid y rhan hon o'ch Fformat*** | **Y trefniadau cyfredol:**<br><br>*Does dim trefniadau ar gyfer cydleoli wedi'u nodi yn nhudalen y Fformat presennol<br><br>*Yn ogystal, nodir ar hyn o bryd yn adran rhannu rhaglenni'r Fformat y bydd y rhan fwyaf o raglenni rhwydwaith ar gyfer Cymru yn cael |

| | |
|---|---|
| | eu rhannu gyda Real Radio yn Ne Cymru dim ond y tu allan i'r oriau a wneir yn lleol a nodir, gyda darpariaethau hefyd ar gyfer rhai rhaglenni perthnasol o rwydwaith GMG Radio.<br><br>**"Bydd y rhan fwyaf o raglenni rhwydwaith ar gyfer Cymru yn cael eu rhannu gyda Real Radio yn Ne Cymru dim ond y tu allan i'r oriau a wneir yn lleol a nodir uchod, gyda darpariaethau hefyd ar gyfer rhai rhaglenni perthnasol o rwydwaith GMG Radio".**<br><br>Nid oes raid i Real Radio yn Ne Cymru gynhyrchu rhaglenni a wneir yn lleol y tu allan i'r oriau hynny a bennir yn ei Fformat. Felly mae'r gwasanaeth yn dewis darparu rhaglenni rhwydwaith o ansawdd y tu allan i'r oriau hynny a rhagwelir y bydd hyn yn cael ei rannu gyda Real Radio Gogledd a Chanolbarth Cymru hefyd. |
| | **Trefniadau newydd arfaethedig:**<br><br>**Cydleoli**<br>Bydd Real Radio Gogledd a Chanolbarth Cymru yn cael ei gydleoli gyda Real Radio De Cymru yn stiwdios Tŷ Nant ger Caerdydd neu unrhyw leoliad arall yng Nghymru.<br><br>**Rhannu rhaglenni**<br>Mae'r rhan fwyaf o'r rhaglenni rhwydwaith ar gyfer y gwasanaeth a thu allan i'r holl oriau newydd a wneir yn lleol ar gyfer Cymru fel y nodir o dan ddatganiad y Ddeddf Economi Ddigidol yn cael eu nodi yn yr adran dyletswyddau newydd arfaethedig isod.<br><br>Bydd rhaglenni rhwydwaith ar gyfer Real Radio Gogledd a Chanolbarth Cymru yn cael eu rhannu gyda Real Radio De Cymru a bydd y deunydd yn cynnwys rhaglenni priodol ac addas gan Real Radio neu GMG Radio. Efallai hefyd y bydd rhywfaint o hollti rhaglenni'n digwydd gyda gwasanaeth Real Radio De Cymru pan fo cyfiawnhad dros wneud hynny. |

| | | |
|---|---|---|
| **Oriau a wneir yn lleol a/neu fwletinau newyddion lleol**<br><br>***Llenwch yr adran hon os ydych yn gwneud cais i newid y rhan hon o'ch*** | **Dyletswyddau cyfredol:**<br>**Oriau a wneir yn lleol** | **O leiaf 10 awr y diwrnod yn ystod y dydd yn yr wythnos (**<br>**amser brecwast).**<br>**O leiaf 4 awr yn ystod y dydd ar ddydd Sadwrn a dydd Su** |
| | **Bwletinau newyddion lleol** | **Bob awr o leiaf yn yr oriau brig yn ystod yr wythnos ac a**<br>**allan i'r oriau brig, dylid cynnwys newyddion y DU a'r ce**<br>**rhyngwladol.** |

| ***Fformat*** | **Dyletswyddau newydd arfaethedig:** | |
|---|---|---|
| | **Oriau a wneir yn lleol** | **O leiaf 7 awr y diwrnod yn ystod brecwast).<br>O leiaf 4 awr yn ystod y dydd a** |
| | **Bwletinau newyddion lleol** | **Bob awr o leiaf yn ystod y dydd benwythnosau. Y tu allan i'r ori cenhedloedd a newyddion rhyn** |

Gall deilydd trwydded radio masnachol lleol analog wneud cais i Ofcom am gael newid Fformat yr orsaf. Dylid gwneud unrhyw gais gan ddilyn y drefn sydd wedi'i dangos ar y ffurflen hon, a dylai fod yn unol â'r gweithdrefnau y mae Ofcom wedi'u cyhoeddi ar gyfer newidiadau mewn Fformat (ar gael ar ein gwefan yn www.ofcom.org.uk/radio/ifi/rbl/formats/formats/fc/changeregs/).

O dan adran 106(1A) o Ddeddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd), ni fydd Ofcom ond yn caniatáu newid mewn Fformat os yw'n fodlon bod *o leiaf* un o'r pum maen prawf statudol canlynol wedi'i fodloni:

*(a) na fydd y newid yn newid natur y gwasanaeth yn sylweddol;*

*(b) na fydd y newid yn cyfyngu ar yr amrywiaeth o raglenni sydd ar gael drwy gyfrwng gwasanaethau radio annibynnol perthnasol i bobl sy'n byw yn yr ardal neu'r gymdogaeth y mae'r gwasanaeth wedi'i drwyddedu i ddarparu ar eu cyfer;*

*(c) y bydd y newid yn ffafriol i gynnal neu i hyrwyddo cystadleuaeth deg ac effeithiol;*

*(d) bod tystiolaeth bod galw sylweddol ymysg y bobl sy'n byw yn yr ardal neu'r gymdogaeth honno am y newid a fyddai'n deillio o'r fformat newydd, neu fod cefnogaeth sylweddol i'r newid hwnnw; neu*

*(e) y byddai (i) y newid yn arwain at roi'r gorau i wneud y rhaglenni sydd wedi'u cynnwys yn y gwasanaeth trwyddedig mewn adeilad yn yr ardal neu'r gymdogaeth y darperir y gwasanaeth ar eu cyfer, ond (ii) bod y rhaglenni hynny'n parhau i gael eu gwneud yn gyfan gwbl neu'n rhannol mewn adeilad yn yr ardal gymeradwy (fel y'i diffinnir yn adran 314 o Ddeddf Cyfathrebu 2003 (cynnwys lleol a natur gwasanaethau)).*

Dim ond un o'r pum maen prawf hyn y mae angen ei fodloni er mwyn i Ofcom ganiatáu'r newid arfaethedig. Fodd bynnag, hyd yn oed os yw Ofcom o'r farn bod y newid arfaethedig yn bodloni un neu fwy o'r meini prawf statudol, efallai y bydd rhesymau (yn dibynnu ar amgylchiadau penodol yr achos) pam na fydd Ofcom yn caniatáu'r newid arfaethedig. Mae'r meini prawf ychwanegol y bydd Ofcom yn eu hystyried wrth arfer yr hawl hwn i'w cael yn: www.ofcom.org.uk/radio/ifi/rbl/formats/formats/fc/changeregs/)

Dylai ymgeiswyr nodi bod adran 106ZA o'r un Ddeddf (fel y'i diwygiwyd) yn mynnu bod rhaid ymgynghori ynghylch newid arfaethedig *nad yw'n* bodloni'r cyntaf neu'r olaf o'r meini prawf hyn (h.y. newid y mae Ofcom o'r farn y *byddai* neu y *gallai* newid natur y gwasanaeth yn sylweddol, neu nad yw'n ymwneud â tharddiad rhaglenni a wneir yn lleol), os ydyw i'w ystyried ymhellach dan unrhyw un o'r tri maen prawf arall. [#].

Os digwydd i Ofcom gael cais am newid Fformat a'i fod yn credu *nad yw* maen prawf (a) neu (e) wedi'i fodloni, bydd yn gofyn am gadarnhad gan yr ymgeisydd ynghylch a yw'n dymuno parhau â'r cais (ac, os ydyw, a yw'n dymuno newid ei gyflwyniad neu roi un yn ei le o gofio bod angen ei gyhoeddi).

**A fyddech yn nodi'r maen prawf neu'r meini prawf statudol a nodir yn adran 106(1A) o Ddeddf Darlledu 1990 sydd, yn eich barn chi, wedi'i fodloni neu wedi'u bodloni yng nghyswllt y cais hwn am newid Fformat, a'r rhesymau dros hyn:**

**Perthnasedd i adran 106(a)…**

Ni fydd natur gyffredinol y gwasanaeth ac arddull y rhaglenni a fydd yn cael eu darparu i wrandawyr yn ngogledd a chanolbarth Cymru yn newid yn sylweddol gan mai bwriad y cynnig yw ehangu cwmpas daearyddol y gwasanaeth i gynnwys y cyfan neu'r rhan fwyaf o Gymru. Nid yw ehangu'r cwmpas daearyddol a rhoi golwg mwy cenedlaethol i'r gwasanaeth o ran gwybodaeth a newyddion am Gymru ar analog a digidol yn cael ei weld gan GMG Radio ac ni ddylai gael ei ystyried gan Ofcom na'r mwyafrif o wrandawyr i'r gwasanaeth newydd hyn yn newid sylweddol nac ychwaith yn newid yn sylweddol natur gyffredinol y gwasanaeth radio a ragwelir ar gyfer gogledd a chanolbarth Cymru.

Bydd cyfuno dau wasanaeth radio masnachol sy'n ymgorffori gorsaf newydd Real Radio yng ngogledd a chanolbarth Cymru ynghyd â'i chwaer orsaf yn y de a'r gorllewin ar drwyddedau darlledu ar wahân, yn fodd i rhannol greu gorsaf radio fasnachol genedlaethol ar gyfer y rhan fwyaf o Gymru ond gyda'r gallu o hyd i addasu i unrhyw ddigwyddiadau a chan hollti rhaglenni rhwng y ddwy drwydded pan fo cyfiawnhad dros wneud hynny.

**Perthnasedd i adran 106 (b), (c) a (d)…**

Bydd Real Radio yn y gogledd a'r canolbarth ac yn y de yn ymrwymo i gynnig gwasanaeth radio cenedlaethol i Gymru ar yr amlblecsau DAB sydd ar gael ar draws y wlad erbyn diwedd eleni yn amodol ar gael cliriad technegol gan weithredydd yr amlblecs yn yr ardal drosglwyddo ddigidol newydd hon. Bydd y gwasanaeth yn cael ei lansio ar wahân ar FM drwy gyfrwng y ddwy drwydded analog bresennol ddechrau 2011. Ni fydd ystod y rhaglenni'n cael ei leihau a bydd gwrandawyr ymhob un o'r ardaloedd darlledu rhanbarthol yn clywed yr un rhaglenni gyda rhagor o newyddion, newyddion teithio, bwletinau tywydd, chwaraeon a rhaglenni nodwedd eraill er mwyn rhoi blas lleol a chenedlaethol i'r cynnwys gan adlewyrchu cymeriad cyffredinol y gwasanaeth i wrandawyr yng Nghymru.

Bydd trwyddedau analog ar wahân ynghyd â rhannu rhaglenni yn galluogi'r orsaf hefyd i hollti rhaglenni rhwng de a gorllewin Cymru a gogledd a chanolbarth Cymru ar analog a DAB pan fo cyfiawnhad dros wneud hynny.

Bydd gwasanaeth newydd arfaethedig Real Radio ar gyfer gogledd a chanolbarth Cymru yn cadw fformat a chymeriad cyffredinol y gwasanaeth ac ni ragwelir y bydd y newid yn lleihau'r galw am yr orsaf newydd.

**A fyddech yn darparu unrhyw wybodaeth a/neu dystiolaeth ychwanegol o blaid y newid(iadau) arfaethedig isod os gwelwch yn dda. Yn benodol, efallai y bydd yr ymgeisydd am amlinellu sut, yn eu barn hwy, y mae'r newid arfaethedig yn cyd-fynd â**

**pholisi cyhoeddedig Ofcom ar wneud cais am newid Fformat (www.ofcom.org.uk/radio/ifi/rbl/formats/fc/changeregs), A hefyd arweiniad lleolrwydd Ofcom, sy'n cynnwys ein polisi ar gydleoli a rhannu rhaglenni (**www.ofcom.org.uk/radio/ifi/rbl/car/localness**).**

Roedd cais llwyddiannus GMG Radio ar gyfer trwydded analog gogledd a chanolbarth Cymru yn cynnwys cryn dipyn o ymchwil i'r dystiolaeth o'r galw a'r gefnogaeth yn y rhanbarth am wasanaeth o'r math a gynigir gan Real Radio.

Nid oedd yn syndod ychwaith fod hyn yn adlewyrchu awydd clir ymysg cyfranogwyr am wasanaeth radio masnachol cenedlaethol o bosibl i Gymru. Roedd llawer o'n cynlluniau rhaglennu ar gyfer y cais yn gwneud cynigion ac ymrwymiadau yn y cais a oedd yn cynnig barn ar y gofynion hyn er y deallid yn iawn mai'r her yn y broses gyffredinol o ennill y drwydded oedd darparu gwasanaeth ar gyfer rhan ddaearyddol benodol o Gymru fel y nodwyd yn yr hysbyseb ac wedyn yn ein cynlluniau darlledu.

Ar analog a digidol, mae'n amlwg y bydd Real Radio yn wasanaeth radio wedi'i leoli yng Nghymru ac yn canolbwyntio ar Gymru gydag ymrwymiad eang i newyddion a gwybodaeth am faterion y dydd i wrandawyr yng Nghymru ac a fydd yn ei wneud yn wahanol i unrhyw wasanaeth radio masnachol arall yn y rhanbarth.

Bydd defnyddio Real Radio de Cymru fel y ffocws a'r model gweithredol ar gyfer gwasanaeth radio newydd i ogledd a chanolbarth Cymru'n darparu ffon fesur eithriadol wrth fesur a phrofi nid yn unig sut y gellir cael dinasoedd, trefi a chymunedau i gyfrannu a'u huno, ond hefyd pam y mae tystiolaeth ddiymwad y gellir ei ehangu bellach i gwmpasu Cymru gyfan.

Credwn y bydd cynulleidfaoedd radio newydd yng ngogledd a chanolbarth Cymru yn gwerthfawrogi'r ffaith y bydd y gwasanaeth yn cael ei ehangu, gwasanaeth a fydd yn cael ei gynllunio i beidio â bod yn rhy blwyfol i'r ardal ddarlledu ond, yn hytrach yn rhannu gwybodaeth am ddigwyddiadau ac ati sy'n digwydd ar draws Cymru gyfan neu'r rhan fwyaf ohoni. Credwn y bydd gwrandawyr sy'n dod o hyd i'r gwasanaeth yn sicr o'r bwriad unwaith iddynt ddechrau gwrando a threialu gwasanaeth newydd Real Radio ar gyfer Gogledd a Chanolbarth Cymru.

Mae cydleoli a rhannu rhaglenni'n darparu'r echelin a fydd yn fodd i gael modiwl busnes cynaliadwy a chwbl gydgysylltiedig ynghyd ag awydd a rhyddid digonol i ddarparu gwasanaeth radio llawn a gwahanol i wrandawyr yng Nghymru. Gwerthfawrogwn y ffaith fod y gwrandawyr yn disgwyl hyn ac mae wedi'i ddarparu o'r blaen ac yn gyson gan Real Radio ers ei lansio yng Nghaerdydd bron i ddeng mlynedd yn ôl.

Mae'r Mesur Economi Ddigidol newydd yn golygu bellach fod y cyfle i gael radio cenedlaethol ar gyfer y rhan fwyaf y Gymru yn bosibilrwydd gwirioneddol ar gyfer gwrandawyr ac yn ddichonadwy i Real Radio fel busnes yn y ddwy ardal drwyddedig.

Bydd y gwasanaeth(au) yn darlledu gyda rhaglenni'n cael eu rhannu ar draws Cymru ar analog a DAB drwy gyfrwng MXR fel sy'n digwydd eisoes yn y de ar Aber Hafren a de Cymru. Gan ragweld cymeradwyaeth Ofcom i'r cais hwn, mae GMG Radio wedi ymgynghori hefyd â MuxCo a bydd cynnig ar ffurf cytundeb Penawdau Telerau ffurfiol ar gyfer cludiant digidol i amlblecs Canolbarth Cymru a Swydd Gaer ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn cael ei weithredu pan geir cymeradwyaeth.

Rhagwelir hefyd y bydd y gwasanaeth yn parhau fel y mae ar sail y DU gyfan ar lwyfan SKY Digital.

Rydym felly'n gofyn am gymeradwyaeth ffurfiol gan Ofcom er mwyn bwrw ymlaen â'r cynllun cyffredinol.

*Nodiadau*

# Gall Ofcom roi sêl bendith i newid dan unrhyw feini prawf o (b) i (d) heb ymgynghori, neu yn dilyn ymgynghoriad sy'n para llai na 28 diwrnod, os yw Ofcom o'r farn y byddai cynnal ymgynghoriad o gwbl, neu am 28 diwrnod neu fwy, yn arwain at oedi a fyddai'n debygol o niweidio buddiannau deilydd y drwydded. Gall Ofcom hefyd dynnu unrhyw wybodaeth gyfrinachol a gyflwynir gan y deilydd trwydded at ddibenion ymgynghori.

## Atodiad 6

# FFORMAT GORSAF RADIO MASNACHOL

OFFICE OF COMMUNICATIONS

## FFORMAT GORSAF RADIO MASNACHOL

## REAL RADIO (Cymru)

### Natur y Gwasanaeth

**GORSAF SY'N RHOI GWASANAETH LLAWN O GERDDORIAETH GYFOES I OEDOLION YN NE CYMRU, WEDI'I HANELU'N BENNAF AT BOBL RHWNG 25 A 54 OED, AC SY'N CREDU BOD SGWRS, GWYBODAETH RANBARTHOL A RHYNGWEITHIO Â GWRANDAWYR YN BWYSIG, YN OGYSTAL Â DARPARU NEWYDDION 24 AWR**

| | |
|---|---|
| **Ardal sydd wedi'i thrwyddedu** | **De Cymru (fel y mae yn hysbyseb Ofcom)** |
| **Amlder** | **105.4, 105.9, 106.0 MHz** |
| **Hyd y gwasanaeth** | **24 awr** |
| **Oriau a wneir yn lleol** | **O leiaf 10 awr y diwrnod yn ystod y dydd yn yr wythnos (rhaid i hyn gynnwys amser brecwast).<br>O leiaf 4 awr yn ystod y dydd ar ddydd Sadwrn a dydd Sul.** |
| **Bwletinau newyddion lleol** | **Bob awr o leiaf yn yr oriau brig yn ystod yr wythnos ac ar benwythnosau. Y tu allan i'r oriau brig, dylid cynnwys newyddion y DU a'r cenhedloedd a newyddion rhyngwladol.** |

**Trefniadau ar y cyd (os yw'n berthnasol)**

| | |
|---|---|
| **Cydleoli** | **Dim Trefniadau** |
| **Rhannu rhaglenni** | **Dim Trefniadau** |

**Diffiniadau**

| | |
|---|---|
| Sgwrsio / Cerddoriaeth | Nid yw'n cynnwys hysbysebu, hyrwyddiadau ar gyfer yr orsaf neu raglenni na chredydau i noddwyr |
| Oriau Brig | Amser brecwast ac amser gyrru i'r gwaith ac adref yn ystod yr wythnos, ac amser brecwast hwyr ar benwythnosau |
| Yn ystod y dydd | 0600 i 1900 yn ystod yr wythnos ac ar benwythnosau |
| Wedi'u gwneud yn lleol | Cynhyrchu a chyflwyno o'r tu mewn i'r ardal drwyddedig |

Poblogaeth y Dalgylch Mesuredig : 1,237,56    Rhif trwydded : AL 261-1

**Nodiadau**

Dylid darllen y Fformat hwn ar y cyd â Chanllawiau Lleolrwydd cyhoeddedig Ofcom fel y'u diweddarwyd ynghyd â thestun ychwanegol o "Dyfodol Radio : Y Cam Nesaf" (2007) **CYTUNWYD MAWRTH 2008**

## Atodiad 7

# Gorsafoedd radio masnachol a chymunedol sy'n gweithredu yng Nghymru

## Gorsafoedd Masnachol

| | |
|---|---|
| • Red Dragon | Caerdydd/Casnewydd |
| • Gold | Caerdydd/Casnewydd |
| • 96.4 FM The Wave | Abertawe |
| • Swansea Sound | Abertawe |
| • Nation Radio | De Cymru |
| • 102.1 Bay Radio | Abertawe |
| • Bridge FM | Pen-y-bont ar Ogwr |
| • Kiss 101 | Aber Hafren |
| • Radio Sir Gâr/Scarlet FM | Sir Gaerfyrddin |
| • Radio Sir Benfro | Sir Benfro |
| • Heart Ynys Môn a Gwynedd | Caernarfon |
| • Heart Arfordir Gogledd Cymru | Arfordir Gogledd Cymru |
| • Radio Maldwyn | Sir Drefaldwyn |
| • Radio Ceredigion | Ceredigion |

## Gorsafoedd Cymunedol

| | |
|---|---|
| • GTFM | Pontypridd |
| • Afan FM | Port Talbot |
| • Calon FM | Wrecsam, Gogledd Cymru |
| • Radio Cardiff | Caerdydd |
| • BRfm | Brynmawr, Blaenau Gwent |
| • Radio Tircoed | Pentref Coedwig Tircoed |
| • BRO Radio | Y Barri, Bro Morgannwg |
| • Tudno FM | Llandudno, Gogledd Cymru |
| • Point FM | Y Rhyl, Gogledd Cymru |